Disgrifiad Swydd

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Teitl Swydd	**Gweithiwr Cymdeithasol – (Gwasanaethau Oedolion)**		
Rhifau Swydd	**BG10590 & BG02723**	**Gradd**	**8**
Prif Weithle	**Gweithio Ystwyth / ViTCC/Ysbyty Aneurin Bevan**	**Oriau Gwaith**	**37**
Lwfans Defnyddiwr Car	**Achlysurol Cymeradwy**	**Datgeliad**	**Estynedig**
Cyswllt	**Alice Evans 07976284597**	**Diweddarwyd**	**Mawrth 2021**

Prif Ddiben y Swydd

I asesu anghenion dinasyddion a gofalwyr byddwch yn cynllunio, gweithredu, adolygu a gwerthuso deilliannau. Gan weithio dros a gydag unigolion, byddwch yn ofalus i ddeall eu hamgylchiadau a'u blaenoriaethau unigryw.

Gan hyrwyddo egwyddorion dewis a rheolaeth, byddwch yn cefnogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Diolch i chi, cânt eu grymuso i gael gwasanaethau wedi eu trefnu a risgiau wedi eu rheoli mewn ffyrdd sy'n iawn iddynt hwy.

Byddwch yn cadw golwg barcud ar newid mewn anghenion er mwyn cynnal eich safonau proffesiynol yn barhaus wrth i'n gwasanaeth barhau i ddatblygu. O ddatblygu ac adolygu cynlluniau cefnogaeth a darpariaeth, i alluogi defnydd creadigol adnoddau yn cynnwys technoleg gynorthwyol, byddwch yn darparu gofal cymdeithasol sydd bob amser yn addas i'r unigolyn.

Cyfrifol i: Rheolwr Tîm

Prif Gyfrifoldebau

1. Cydymffurfio ag egwyddorion y polisi corfforaethol ar Gydraddoldeb a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

2. Cynnal y broses asesu a rheoli gofal gydag oedolion bregus, yn cynnwys dynodi risgiau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfredol yr awdurdod.

3. Hyrwyddo deilliannau dinasyddion a'u cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.

4. Rheoli llwyth achosion yn effeithlon.

5. Grymuso dinasyddion i gyflawni eu potensial am annibyniaeth ac i ddiwallu eu dewisiadau lle'n briodol.

6. Datblygu cynlluniau rheoli risg effeithlon.

7. Sicrhau y caiff deilliannau dinasyddion a/neu ofalwyr eu gweithredu a monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r deilliannau a'r nodau hyn.

8. Cydlynu adolygiadau a gwasanaethau gan sicrhau cyfranogiad llawn dinasyddion, gofalwyr a theuluoedd a phartneriaid eraill perthnasol.

9. Cynnal asesiadau dan weithdrefnau De Ddwyrain Cymru ar Ddiogelu Oedolion Bregus.

10. Cadw cofnodion cywir o'ch ymgyfraniad proffesiynol eich hun gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd yn unol â gofynion y Gyfarwyddiaeth.

11. Gweithio wrth ochr cydweithwyr o asiantaethau statudol a gwirfoddol, drwy asesiadau a chyfarfodydd aml-ddisgyblaeth.

12. Gweithredu fel eiriolydd ar ran dinasyddion, gofalwyr a theuluoedd gyda gweithwyr proffesiynol eraill .

13. Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg gofalwyr am eu hawl i asesiadau a phryd mae angen cynnal yr asesiadau hynny.

14. Ymgymryd â goruchwyliaeth, cefnogaeth a datblygu aelodau heb gymwysterau o'r tîm.

15. Cynnal portffolio hyfforddiant a chydymffurfio gyda gofynion cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru.

16. Cydymffurfio â holl bolisïau'r Adran a'r Awdurdod e.e. Iechyd a Diogelwch.

17. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i rôl gweithiwr cymdeithasol fel sydd angen gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

18. Cyfrannu at y dull gweithredu amlddisgyblaeth mewn cyfarfodydd clinigol, cynadleddau achos a thrafodaeth glinigol.

19. Llunio, monitro ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn cysylltiad gydag asiantaethau dinasyddion/partner a gofalwyr.

Manyleb Person

1. Cymwysterau a phrofiad	Dull Asesu				
Cymwysterau/profiad perthnasol	**Hanfodol/ Dymunol**	**Ffurflen Gais**	**Cyfweliad**	**Arall (noder)**	**Cyfnod Prawf**
Diploma/Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol.	H	I			
Rhaid bod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru	H	I			
Addysg i lefel Meistr mewn maes iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol	D	I			
Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl	D	I			
Profiad blaenorol o weithio mewn gosodiadau Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol	H	I			
Profiad blaenorol o ddarparu hyfforddiant/sesiynau gwybodaeth i staff/cydweithwyr	D	I			
Gwybodaeth/Sgiliau					
Gwybodaeth a dealltwriaeth o reolaeth Gofal Cymhleth yn cynnwys Gofal Iechyd Parhaus	H	I			
Dealltwriaeth o anghenion dinasyddion/gofalwyr	H	I			
Profiad o weithio aml-ddisgyblaeth	H	I			
Rhaid medru arddangos gwybodaeth waith drwyadl o'r fframwaith statudol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mesur Iechyd Meddwl/Iechyd Meddwl, Deddf Galluedd Meddwl a'r Ddeddf Hawliau Dynol	H	I	I		
Rhaid medru arddangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i hyrwyddo cefnogaeth a gyfeirir gan y dinesydd, asesiadau seiliedig ar nerth a gallu i alluogi unigolion i gyflawni deilliannau sy'n canoli ar y person.	H	I	I		
2. Gofynion Arbennig	**Hanfodol/ Dymunol**	**Ffurflen Gais**	**Cyfweliad**	**Arall (noder)**	**Cyfnod Prawf**
Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig clir	H	I			
Sgiliau rhyngbersonol cryf	H	I			
Sgiliau cofnodi clir yn cynnwys defnyddio TGCh o fewn y gweithle (h.y. Microsoft Office, WCCIS)	H	I			
Gallu i weithio dan bwysau, yn cynnwys y gallu i gadw at amserlenni tyn	H		I		
Gallu i weithio'n annibynnol ac ar eich cymhelliant eich hun	H	I			
Goruchwylio staff heb gymwysterau	D	I			
Arddangos ymarfer gwrth-wahaniaethol yn y gwaith yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr	H		I		
Bod yn fodlon i barhau â datblygiad proffesiynol	H				I
Cefnogi a datblygu aelodau eraill o'r tîm	D				H
Trwydded yrru gyfredol a mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith	H	I			

3. Gofynion Sgiliau yn y Gymraeg	Hanfodol/ Dymunol	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall (noder)	Cyfnod Prawf
Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (lefel 0 yn yr holl lefelau sgiliau yn y Gymraeg)	Dymunol	✓			

	Lefel 0	Lefel 1 Mynediad	Lefel 2 Sylfaen	Lefel 3 Canolradd	Lefel 4 Uwch	Lefel 5 Hyfedredd
Siarad/Gwrando	☒	☐	☐	☐	☐	☐
Darllen/Deall	☒	☐	☐	☐	☐	☐
Ysgrifennu	☒	☐	☐	☐	☐	☐

Gweler "Canllawiau Sgiliau yn y Gymraeg" ar wefan Blaenau Gwent i gael mwy o wybodaeth ar y lefelau uchod.

4 . Cymwyseddau Personol

Caiff pob cymhwysedd eu hystyried yn hanfodol, er y cydnabyddir y gall rhai gael eu cyflawni dros gyfnod. Disgwylir i'r holl gyflogeion i ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol gyda'r fframwaith priodol. Yn ogystal â'r rhai a aseswyd fel rhan o'r broses recriwtio, caiff cymwyseddau eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedyn drwy gynllun hyfforddiant perfformiad yr Awdurdod.

Dull Asesu

Pwnc	Cymwyseddau	Ff. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder)	Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad
Cyflenwi'r Gwasanaeth	Blaen-gynllunio, trefnu gwaith ymlaen llaw				✓
	Cynnwys rheolwr llinell/ cydweithwyr wrth osod a chyflawni targedau				✓
	Ad-drefnu gwaith pan fo angen				✓
	Mynd â thasgau rhagddynt hyd eu cwblhau lle bynnag sy'n bosibl				✓
	Gofyn am help os daw pwysau gwaith yn anhylaw				✓
	Defnyddio cymhelliant i roi adroddiad ar faterion sy'n codi sy'n effeithio ar eraill				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ff. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad
Gwella a Newid	Parod i roi cynnig ar bethau newydd a rhoi adborth ar ganlyniadau				✓
	Deall fod angen newidiadau os yw pethau i wella				✓
	Canfod ffyrdd newydd a chreadigol o wneud pethau'n well				✓
	Mynd ati i geisio datblygu eu sgiliau a gwybodaeth ei hun				✓
	Dysgu o gamgymeriadau a chroesawu adborth adeiladol				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ff. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad
Darparu Gwasanaeth Ardderchog i Gwsmeriaid	Adnabod pwysigrwydd safonau uchel gwasanaeth cwsmeriaid				✓
	Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth ardderchog i holl ddinasyddion Blaenau Gwent				✓
	Deall y cysylltiadau rhwng eu proffesiynoldeb eu hunain a'r effaith bosibl ar ddelwedd yr Awdurdod				✓
	Agwedd broffesiynol sy'n gosod esiampl i gydweithwyr				✓
	Ymfalchïo yn eu gwaith eu hun a gwaith cydweithwyr				✓
	Bob amser yn dangos parch, yn gwrtais a pharod i gynorthwyo				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ff. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder)	Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad
Gwaith Tîm	Ymateb yn adeiladol i awgrymiadau a cheisiadau pobl eraill				✓
	Cydnabod gwerth posibl barn pobl eraill a mynd ati i ofyn am eu cyfraniadau				✓
	Gofyn am help pan fo angen				✓
	Mynd ati i geisio helpu pobl eraill				✓
	Gwybod am effaith eu hymddygiad eu hunain ar bobl eraill				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ff. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder)	Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad
Cyfathrebu	Addasu cynnwys ac arddull i helpu pobl eraill i ddeall				✓
	Gwneud yn sicr y caiff pobl wybodaeth yn rheolaidd				✓
	Defnyddio iaith, ystum a thôn priodol wrth siarad gydag eraill				✓
	Gwirio fod eraill wedi deall a cheisio cyngor pan fo angen				✓
	Mynd ati i geisio gwella pob math o gyfathrebu gyda phobl eraill				✓
	Cyfathrebu'n broffesiynol drwy ddefnyddio sianeli ffurfiol priodol i'r sefyllfa				✓